# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 30 Medi 2015

Amser: 13.30

# (287)v3

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5831 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r rhan bwysig y mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn ei chwarae mewn profiadau unigolion o wasanaethau cyhoeddus.

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yn barhaus i ddarparu cymorth i awdurdodau lleol er mwyn atal cynnydd mewn biliau treth gyngor;

3. Yn nodi mai'r band treth gyngor D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 2015-16 yw £1,328 a bod teuluoedd ar eu colled o £546 yn ystod y pedwerydd Cynulliad o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gwrthod rhewi'r dreth gyngor;

4. Yn credu y bydd pobl yng Nghymru yn amau'r gwerth am arian a ddarperir gan lawer o wasanaethau awdurdodau lleol yn dilyn y cynnydd hwn yn y dreth gyngor; a

5. Yn credu ymhellach bod angen gwneud mwy yng Nghymru i fanteisio ar y rôl y gall mudiadau trydydd sector ei chwarae yn y broses o ddarparu gwasanaethau lleol yn effeithiol.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pob dim ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau awdurdod lleol yn y dyfodol os bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fynd ar drywydd polisïau llymder.

Yn credu y dylai awdurdodau lleol a chymunedau gael y rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain i godi cyllid, er mwyn amddiffyn gwasanaethau a swyddi lleol.

## 4 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau - Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion

(60 munud)

**NDM5828 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb, 'Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2015.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2015.

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Deisebau
Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5830 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi na chyrhaeddwyd y targedau ar gyfer amser atgyfeirio am driniaeth GIG Cymru ers 2010;

2. Yn gresynu at effaith andwyol bosibl amseroedd aros hir yn y GIG ar ganlyniadau cleifion a'u hansawdd bywyd; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu cynllun ac amserlen ar gyfer cyrraedd ei thargedau amser atgyfeirio am driniaeth.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau diagnosis cyflymach i leihau amseroedd aros.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 3:

'a sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol drwy gydol eu gofal.'

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5829 Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Gofal lliniarol yng Nghymru: edrych y tu hwnt i 2016.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Hydref 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Medi 2015 i'w hateb ar 30 Medi 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg triniaeth sydd ar gael i bobl sydd ag anhwylder straen wedi trawma o ganlyniad i gael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant? OAQ(4)0624(HSS)

**2. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros am driniaeth canser yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0622(HSS)

**3. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros am driniaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? OAQ(4)0631(HSS)

**4. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllunio ar gyfer gweithlu'r dyfodol o fewn y gwasanaeth iechyd? OAQ(4)0638(HSS)**W**

**5. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r heriau sy'n wynebu'r broses o recriwtio nyrsys yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0637(HSS)

**6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido meddygfeydd teulu? OAQ(4)0628(HSS)**W**

**7. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am wasanaethau menywod a phlant? OAQ(4)0639(HSS)**W**

**8. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yng Nghymru? OAQ(4)0635(HSS)

**9. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atal HIV yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0626(HSS)

**10. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau amseroedd aros am driniaeth canser? OAQ(4)0629(HSS)

**11. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau meddygon teulu yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0623(HSS)

**12. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad i gyffuriau canser yng Nghymru? OAQ(4)0627(HSS)

**13. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd prosiect blaen tŷ newydd Ysbyty Tywysog Philip yn gwella gwasanaethau meddygol brys yn Llanelli? OAQ(4)0634(HSS)

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau rhaglen Future Fit y GIG i drigolion Powys? OAQ(4)0636(HSS)

**15. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer menywod a gaiff eu hatgyfeirio at ofal eilaidd oherwydd yr amheuir bod canser y fron ganddynt? OAQ(4)0625(HSS)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyfradd absenoldeb mewn ysgolion yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0625(ESK)

**2. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog plant i gymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol i wella eu sgiliau sylfaenol? OAQ(4)0624(ESK)

**4. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd cyllid Her Ysgolion Cymru ar gyfer consortia rhanbarthol yn cael ei wario? OAQ(4)0629(ESK)

**5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd y rhan gyntaf o adolygiad yr Athro Diamond o gyllido addysg uwch yn cael ei chyhoeddi? OAQ(4)0632(ESK)**W**

**5. David Rees (Aberafan):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fonitro effeithiolrwydd consortia addysg lleol? OAQ(4)0627(ESK)

**6. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yng Nghymru? OAQ(4)0626(ESK)

**7. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ysgolion yn Nelyn i'w helpu i gynyddu cyrhaeddiad, yn enwedig ymysg plant o gefndiroedd difreintiedig? OAQ(4)0631(ESK)

**8. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa strategaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant penaethiaid ysgolion? OAQ(4)0619(ESK)

**9. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod ysgolion yng Nghymru yn gallu cefnogi disgyblion sydd â phroblemau iechyd meddwl? OAQ(4)0616(ESK)

**10. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio penaethiaid ysgolion? OAQ(4)0622(ESK)

**11. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau ar gyfer PISA 2015? OAQ(4)0628(ESK)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu adeiladau ysgol newydd ym Mhowys? OAQ(4)0617(ESK)

**13. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen Ysgolion y 21ain Ganrif yn Sir Fynwy? OAQ(4)0623(ESK)

**14. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo hyfforddiant galwedigaethol mewn colegau addysg bellach? OAQ(4)0618(ESK)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol? OAQ(4)0614(ESK)**R**